# *Duw a'r Argyfwng Hinsawdd: Cymunedau Ffydd a Gofal Amgylcheddol*

**Drwy Zoom**

Dydd Mercher 14 Gorffennaf 2021

12.00 – 13.15

Yn bresennol:

1. Adrian Allabarton
2. Ainsley Griffiths, yr Eglwys yng Nghymru
3. Alan Lansdown
4. Altaf Hussain AS ar gyfer Gorllewin De Cymru, Plaid Geidwadol Cymru
5. Carol Wardman, yr Eglwys yng Nghymru
6. Christine Abbas, y gymuned Baha'i
7. Colin Harris, Cardiff Watch
8. Colin Heyman, y gymuned Iddewig
9. Curtis Shea, swyddfa Darren Millar AS
10. Darren Millar, AS y Ceidwadwyr dros Orllewin Clwyd (Cadeirydd)
11. David Brownnutt
12. David Emery, Byddin yr Iachawdwriaeth
13. Gareth Edwards, y Sefydliad Cristnogol
14. Gavin Smith, Uwch Gaplan Cymru, Byddin Prydain
15. Gethin Rhys, Cytûn
16. Jane Dodds AS ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
17. Jason Askew, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
18. Jim Stewart (Ysgrifennydd a chofnodwr)
19. Julia Edwards, Hyrwyddwr Newid Hinsawdd, yr Eglwys yng Nghymru
20. Katy McColgan, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
21. Lee Gonzalez, Ymchwilydd, Swyddfa Joel James AS
22. Eluned Morgan AS ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru, Llafur Cymru
23. Mantriraja Dasa, Tŷ Krishna Cymru
24. Mari McNeill, Cymorth Cristnogol (llefarydd)
25. Mavis Harris, Cardiff Watch
26. Mike Hedges AS ar gyfer Dwyrain Abertawe, Plaid Lafur a Chydweithredol Cymru (Is-gadeirydd)
27. Molly Conrad, Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr
28. Nathan Munday
29. Peredur Owen Griffiths AS ar gyfer Dwyrain De Cymru, Plaid Cymru
30. Peter Harrison, Brigâd Cymru, Byddin Prydain
31. Rebecca Evans AS dros Gŵyr, Llafur Cymru
32. Rhys ab Owen AS ar gyfer Canol De Cymru, Plaid Cymru
33. Russell George AS dros Sir Drefaldwyn (Plaid Geidwadol Cymru)
34. Ryland Doyle
35. Sam Rowlands AS ar gyfer Gogledd Cymru, Plaid Geidwadol Cymru
36. Sasha Perriam, Cytûn
37. Sian Rees, y Gynghrair Efengylaidd

Ymddiheuriadau:

1. Alaa Khundakji, Cyngor Mwslimaidd Cymru

2. Esgob June Osbourne, Yr Eglwys yng Nghymru
3. Heather Payne
4. Llŷr Gruffydd, AS dros Ogledd Cymru, Plaid Cymru
5. Sarah Jones, yr Eglwys yng Nghymru
6. Simon Walkling, Cyngor Eglwys Rydd Cymru

Cofnodion:

1. Croesawodd Darren bawb i'r cyfarfod. Ail-gofrestrwyd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd yn ddiweddar a hwn oedd ei gyfarfod cyntaf o'r Chweched Senedd. Rhoddodd Darren drosolwg o hanes y Grŵp ers ei sefydlu ym mis Mawrth 2008, adeg lansio adroddiad Ffydd yng Nghymru. Mae pwrpas y Grŵp yn aros yr un peth, sef tynnu sylw at gyfraniad cadarnhaol grwpiau ffydd i gymunedau yng Nghymru.

2. Busnes:
    a. Ail-etholwyd Darren Millar AS yn Gadeirydd. Cafodd ei enwebu gan Mike Hedges AS a'i eilio gan Sam Rowlands AS.
    b. Etholwyd Mike Hedges yn is-gadeirydd. Cafodd ei enwebu gan Sam Rowlands a'i eilio gan Darren Millar.
    c. Ail-etholwyd Jim Stewart yn Ysgrifennydd. Cafodd ei enwebu gan Darren Millar a'i eilio gan Mike Hedges.

7. Croesawodd Darren yr Aelodau newydd o'r Senedd a oedd yn bresennol, a dywedodd mor falch yr oedd bod gan gynifer ffydd bersonol gref eu hunain. Cyfeiriodd at Altaf Hussain, Jane Dodds, Sam Rowlands, Rhys ab Owen a Peredur Owen Griffiths, a oedd oll yn bresennol yn y cyfarfod.

8. Talodd Darren deyrnged i Rheinallt Thomas, a oedd wedi bod yn aelod gwerthfawr ac ymroddedig o'r Grŵp yn ystod ei gyfnod o dair blynedd fel Llywydd Cyngor Eglwys Rydd Cymru. Gwnaeth lawer o gyfraniadau rhagorol i'r trafodaethau yng nghyfarfodydd y Grŵp, gan gynnwys cyfraniadau ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru ar y cwricwlwm newydd a drafodwyd y llynedd. Y Parch Simon Walkling sy'n cymryd lle Rheinallt, ac ef a fydd nawr yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp.

9. Cyflwynodd Darren Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru, a siaradodd am **Dduw a'r argyfwng hinsawdd: Cymunedau Ffydd a Gofal Amgylcheddol**.

10. Ar ôl cyflwyniad Mari, cynhaliwyd amser trafod, o dan gadeiryddiaeth Darren, pan wnaed y cyfraniadau a ganlyn ar y cyflwyniad a'r pwnc gan y rhai a oedd yn bresennol:

    a. **Carol Wardman, yr Eglwys yng Nghymru** Mae Rhaglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru ynghyd â [Hinsawdd.Cymru](Hinsawdd.Cymru), y maent yn gyfrifol am ei redeg, yn gweithio'n agos gyda'r Eglwys yng Nghymru drwy Fforwm Materion Byd-eang yr Eglwys yng Nghymru a'i grŵp amgylcheddol CHASE. Mae llawer o sefydliadau eraill yn cymryd rhan hefyd.

    b. **Mari MacNeill, Cymorth Cristnogol** Rhan o rôl Cymorth Cristnogol, gyda'i heglwysi sy'n noddi yw helpu i ddod â chysylltiadau byd-eang yr eglwysi ynghyd. Fel enghraifft sy'n dangos yr eglwysi yn gweithredu ar newid yn yr hinsawdd, ym mis Medi bydd Eglwys

Bresbyteraidd Cymru yn lansio apêl enwadol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar yr argyfwng hinsawdd. Bydd codi arian ar gyfer partneriaid Cymorth Cristnogol sy'n gweithio ar reng flaen yr argyfwng hinsawdd mewn lleoedd fel Kenya, Haiti a Honduras yn rhan o hynny, a bydd y sefydliad hefyd yn gweithredu'n lleol drwy'r eglwysi.

Mae gan Gymorth Cristnogol sawl aelod o staff sy'n gweithio'n lleol gydag eglwysi, a gallant helpu os gŵyr Aelodau o'r Senedd am eglwysi yn eu hetholaethau sydd am weithredu o ran newid yn yr hinsawdd, boed hynny'n lleol neu'n fyd-eang (os felly, cysylltwch â Mari ar MMcNeill@christian-aid.org).

c. **Gethin Rhys, Cytûn**. Mae Sul yr Hinsawdd yn brosiect y mae pob un o'r eglwysi Cristnogol bron, a llawer o sefydliadau fel CAFOD, Gweledigaeth y Byd a Chymorth Cristnogol yn ymwneud ag ef. Prosiect tymor byr ydyw yn y cyfnod sy'n arwain at Gynhadledd Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig (COP 26) yn Glasgow. Mae llawer o adnoddau ar gael yn Gymraeg a Saesneg, sy'n annog eglwysi i addoli, i wneud ymrwymiadau lleol ac i godi llais yn y cyfnod sy'n arwain at y Gynhadledd.

d. **Molly Conrad, Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr.** Mae gan yr Eglwys Gatholig 22 esgobaeth yng Nghymru a Lloegr, ac ar hyn o bryd mae 20 wedi ymuno ag ymdrech gydweithredol gymunedol i alluogi pob esgobaeth yng Nghymru a Lloegr i sicrhau y byddant yn niwtral o ran carbon. Mae 20 wedi ymuno â chynllun newid, fel bod yr 20 esgobaeth hyn, gan gynnwys y tair yng Nghymru, yn pweru eu swyddfeydd a'u plwyfi gan ddefnyddio adnoddau adnewyddadwy, sy'n rhan o waith yr eglwys i ddatgarboneiddio.

Mae gan y cymunedau Catholig hefyd brosiect peilot ar hyn o bryd o'r enw Gwarcheidwaid y Creu, sy'n canolbwyntio ar ddod o hyd i dempled a fydd yn gweithio i bob un o'r esgobaethau sydd am ddatgarboneiddio yn llawn. Ysbrydolwyd hyn gan wyddoniadur 2015 y Pab Ffransis, sef Laudato Si. Ar hyn o bryd mae'r Eglwys Gatholig yn casglu astudiaethau achos ac mae Molly yn gobeithio gallu rhannu enghreifftiau â'r Grŵp yn y dyfodol.

e. **Mantriraja Dasa, Tŷ Krishna Cymru**. Mae Cymdeithas Ryngwladol Cydwybod Krishna, y mae Tŷ Krishna Cymru (neu fudiad Hare Krishna) yn rhan ohoni, yn annog ei changhennau i weithredu'n annibynnol ond mae trefniadaeth genedlaethol y DU wedi lansio menter i bob canolfan gael eco-hyrwyddwr er mwyn gwella'r diddordeb sydd yn yr hinsawdd. . Mae'n dempled pum haen sy'n cynnwys allgymorth neu ddiwylliant o ran bwyd, ynni, rheoli gwastraff, dŵr ac addysg. Mae un o'u prosiectau, sef Bwyd am Oes, yn dosbarthu prydau bwyd am ddim i bobl. Y fenter byd-eang Bwyd am Oes yw'r gweithrediad cymorth bwyd o blanhigion mwyaf yn y byd. Mae ein diet a'n ffordd o fyw ni yn cael effaith ar yr hinsawdd.

f. **Katy McColgan, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru.** Mae Interfaith yr Alban wedi ymddiddori llawer yn y newid yn yr hinsawdd ac mae wedi llunio datganiad y bydd Katy yn ei ddangos i'r Grŵp ar ôl iddo gael ei gwblhau, i weld a yw'n rhywbeth y gall grwpiau ffydd unigol yng Nghymru a Chyngor Rhyng-ffydd Cymru ymrwymo iddo. Mae'r pwnc hwn yn un y gallai Cyngor Rhyng-ffydd Cymru ganolbwyntio arno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

g. **Mari MacNeill, Cymorth Cristnogol.** Mae Gwneud i Gynhadledd Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig (COP 26) Gyfrif yn grŵp anffurfiol o gynrychiolwyr o wahanol gymunedau ffydd ledled y DU sy'n gweithio gyda'i gilydd ar eiriolaeth, lletygarwch a gweithredu cyn y Gynhadledd COP26. Gall Cymru chwarae mwy o ran yn hyn.

h. **Sian Rees, y Gynghrair Efengylaidd.** Mae **Cynghrair Efengylaidd y DU**, ac yn benodol Cynghrair Efengylaidd yr Alban, yn gweithio ar ddarn o waith mewn partneriaeth â Tearfund a Chymorth Cristnogol, a chynhelir digwyddiad ar-lein am ddim ynghylch y mater ar 7 Medi. Mae demograffig iau y Gynghrair Efengylaidd yn benodol, i raddau helaeth, yn ymwneud â gofal am y greadigaeth a materion cyfiawnder hinsawdd er bod rhai Cristnogion efengylaidd wedi gwadu bod dim newid yn yr hinsawdd. Fel Cynghrair Efengylaidd ledled y DU, fodd bynnag, mae'r Gynghrair yn rhagweithiol iawn wrth lobïo ar faterion newid yn yr hinsawdd, ac mae'n creu myfyrdodau diwinyddol a defosiynol. Daw'r rhain i'r amlwg yn ystod y misoedd nesaf ar wefan y Gynghrair Efengylaidd, www.eauk.org.

i. **Katy McColgan, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru**. Gwnaeth Gethin Rhys gyflwyniad rhagorol ar yr amgylchedd, sydd i'w gael yma.

j. **Gareth Edwards** (yn siarad o safbwynt personol). Mae Gareth yn cynrychioli tua 60 o eglwysi efengylaidd yng Nghymru ar deithiau i Ogledd Ddwyrain India, gan weithio ar y cyd ag Eglwys Annibynnol India. Mae rhan o hyn yn cynnwys cefnogi menter eglwys Indiaidd, sef Cymdeithas Codi Menywod Gwledig (Rural Women's Upliftment Society), sy'n galluogi cymunedau gwledig yn eu materion datblygu yng ngoleuni heriau newid yn yr hinsawdd.

k. **Mike Hedges AS**. Mae heriau i'w goresgyn o ran sut i gynnwys pobl hŷn yn ein heglwysi a'n cymunedau ffydd ym mater newid yn yr hinsawdd - nid ydyn nhw'n gwadu bod problem, ond yn aml nid oes ganddyn nhw ddiddordeb chwaith.

l. **Dave Brownnutt.** Mae Laura-Lee Lovering yn wyddonydd amgylcheddol sydd wedi bod yn gweithio yn ardal Periw o'r jyngl Amason. Mae hi wedi'i phenodi gan Gymdeithas Genhadol y Bedyddwyr fel Cydlynydd Gofal o'r Greadigaeth i weithio gyda nhw yn eu holl weithgareddau ledled y byd i ddysgu oddi wrthynt ac i rannu'r gwersi gyda chefnogwyr Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yn y DU. Bydd yn annog cefnogwyr i weld beth allant ei wneud i fod yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd ac i ystyried gofal amgylcheddol fel cyfrifoldeb Cristnogol. Bydd hi wedi'i lleoli ym Mheriw a'i chyfeiriad e-bost yw llovering@bmsworldmission.org.

m. **Darren Millar MS**. Roedd datganiad yn y Senedd yr wythnos hon ar goed a gwrychoedd (gweler yma). Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod rhai targedau uchelgeisiol iawn ar gyfer plannu coed ledled Cymru dros y 5 mlynedd nesaf. Mae Darren yn pendroni i ba raddau y gallai cymunedau ffydd fod yn rhan o hyn.

n. **Katy McColgan, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru.** Mae Cyngor Rhyng-ffydd Cymru wedi ymrwymo i fod yn rhan o Ganopi Gwyrdd y Frenhines ar gyfer plannu coed rhwng mis Hydref a mis Mawrth. Mae coed ar gael gan Goed Cadw, ond mae'n rhaid i bobl allu nodi ble y maent am eu plannu.

o. **Christine Abbas, Cyngor Baha'i Cymru.** Mae angen inni edrych ar yr egwyddorion sy'n sail i'r broblem hon. Beth yw goblygiadau bod yn ddinesydd byd-eang ac yn ddatblygwr cymunedol? Mae angen i ni edrych ar dlodi ac eithafion cyfoeth - mae'r rhain yn heriol ac yn tarfu ar drefn a chynnydd naturiol ein planed. Mae anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod yn chwarae rhan yn hyn o beth hefyd. Mae undod yn bwysig - mae angen i ni weithio gyda'n gilydd, p'un a ydyn ni'n bobl y ffydd neu beidio hefyd.

p. **Wynford Ellis Owen**. Mae arnom angen cydweithrediad pobl yn hyn o beth. Mae pobl yn teimlo bod eu llais wedi cael ei anwybyddu dros y blynyddoedd, a nawr rydyn ni eisiau eu cydweithrediad felly mae angen i rywbeth newid. Mae gennym ni bopeth neu ddim byd, a ffordd o feddwl sy'n ddu neu'n wyn, a dyna yw ein problem fwyaf - rydyn ni'n gosod popeth ar lefel trychineb, mae'n rhaid i ni bob amser fod â rhywbeth i fod yn ofidus yn ei gylch a rhywbeth i gwyno amdano. Rhaid i ni fod â gelyn bob amser. Mae'r gwir, yn hytrach, bob amser yn y canol yn rhywle.

q. **Gavin Smith, Uwch Gaplan Cymru ym Myddin Prydain**. Mae egwyddorion cyfiawnder wrth wraidd yr hyn a wnawn - ac yn rhoi'r hyn y maent yn werth i'n cyd-fodau dynol. Mae cyfiawnder a gwaith teyrnas Dduw o ran gofalu am greadigaeth Duw yn gwneud gwaith Duw mewn gwirionedd, ac mae angen i ni ddeall hynny gan fod cysylltiad cynhenid rhwng y ddau beth.

r. **Mantriraja Dasa, Tŷ Krishna Cymru.** Gall datblygiad economaidd a'r amgylchedd ymddangos eu bod yn groes i'w gilydd. Nid yw datblygiad gwastadol yn gynaliadwy. Mae angen i ni weithio rhagor ar gynnal a chadw yn hytrach na thwf.

s. **Mike Hedges AS**. Mae plannu coed yn rhywbeth y gallwn ni i gyd ei wneud, ac mae'n helpu'r amgylchedd mewn pob math o ffyrdd.

t. **Mari MacNeill, Cymorth Cristnogol.** Mae'r cyfan wedi'i seilio ar gyfiawnder. Ac mae'n ein hatgoffa'n gyson mai ein ffydd sy'n ein gorfodi i herio cam-drin creadigaeth Duw ac i fynnu gwerth ac urddas cynhenid ein brodyr a'n chwiorydd ledled y byd.

u. **Darren Millar AS**. Dywed llyfr Micha, Pennod 6, adnod 8 yn yr Hen Destament yn y Beibl: ''*Mae'r Arglwydd wedi dweud beth sy'n dda a beth mae e eisiau gen ti. Hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser, a byw'n wylaidd ac ufudd i dy Dduw*." Mae hynny'n sylfaen dda ar gyfer llwyddiant, ac os gwnawn ni hynny, fe wireddir y gweithredu beiddgar y mae ei angen o ran y newid yn yr hinsawdd.

11. Bydd Jim yn anfon neges e-bost at aelodau'r Grŵp gyda manylion y cyfarfod nesaf, pan fyddant wedi'u cadarnhau.

12. Cytunodd y Grŵp ar y camau a ganlyn:

A. Bydd Darren yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru:
   a. Gan bwysleisio bod cymunedau ffydd yng Nghymru yn bartner parod iawn i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac yr hoffent ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar gyfer:
      i. Plannu coed; a

ii. Rhaglen Cymru ac Affrica, ac unrhyw gamau rhyngwladol eraill sy’n cael eu cymryd mewn gwledydd sy’n cael eu taro waethaf o ran newid yn yr hinsawdd.

b. Mae angen annog Llywodraeth Cymru i fod yn feiddgar yn yr ymrwymiadau a wnaiff yng Nghynhadledd Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig (COP 26) pan fydd yn cymryd rhan ynddi ym mis Tachwedd.

B. Dylem ystyried cynnal digwyddiad yn y Senedd er mwyn cyfnewid rhai o’r syniadau a rannwyd yn y cyfarfod heddiw, ac i hyrwyddo rhai o’r camau sy’n cael eu cymryd ar lefel leol gan gymunedau a sefydliadau ffydd unigol. Ar ôl i’r cyfyngiadau godi, gallai hyn fod yn rhywbeth y gallai’r Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd ei drefnu yn y Senedd i arddangos peth o’r gwaith gwych sy’n digwydd.

13. Clöwyd y cyfarfod gan Darren Millar AS.